Cofnodion Cyfarfod Cyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ar ddydd Mercher, Hydref 24ain, 2007 am 7.30 p.m.

Presennol: Y Dirprwy Faer Cyng Edward Thomas, Cyng Dawn Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Roy Davies, Cyng Ros Bellamy, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Hugh Towns.
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr. Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Maer Cyng Richard Wallace, Cyng Fran Murphy, Cyng Christopher Parish, Cyng Roy Davies.

Materion yr Heddlu : Nodwyd gan PC Vernon Thomas fod yna ddwy drosedd wedi'u nodi yn ystod mis Hydref, un ymosodiad cyffredinol ac un o fod â meddiant o gyffuriau reoledig. Mae menter i ddosbarthu taflenni i bobl sy'n agored i niwed yn rhoi cyngor ynglŷn â sut i fod yn ddiogel adref ar fin dechrau. Hefyd mae taflenni yn cael eu dosbarthu i berchnogion siopau yn eu rhybuddio i beidio â gwerthu blawd ac wyau i bobl ifanc cyn Calan Gaeaf.

Cof 175 / Hydref /07 Adroddiad y Cynghorydd Sir
Dywedodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones fod Mr Mike Rees wedi cael gair ag ef parthed plannu cenin pedr wrth fynedfeydd y Dref. Bydd y Cyngor yn ei drafod.
Gan fod Ymddiriedolwyr y Neuadd Ddinesig wedi adrodd mewn cyfarfod cyhoeddus nad oedd yna ddigon o arian ar gael i addurno'r neuadd, dywedodd CS Jones y byddai'n sicrhau fod yna grant o £1500 ar gael i wneud hyn.
Hefyd adroddodd CS Jones ei fod wedi siarad â Mr Emyr John, CSC, mewn perthynas ag amcangyfrif y cost o wella Parc Penlan, sy'n debygol o fod tua £20,000.

Cof 176/ Hydref / 07 Cofnodion Blaenorol
Cymeradwywyd ac arwyddwyd Cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir, ar ddydd Mercher, Medi 26ain, 2007 fel cofnod cywir wedi cynnwys y newid canlynol
Cof 155/ Medi/07 newid i ddarllen – Gan nad yw'r wybodaeth benodol ar gael i'r Peiriannydd Sifil lunio adroddiad, gohiriwyd yr eitem tan gyfarfod nesaf o'r cyngor llawn.
Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater.
Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir, ar ddydd Mercher, Hydref 10fed fel cofnod cywir, a'i hargymell i'r Cyngor Llawn i'w derbyn.
Cynigiwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater ac eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace.
Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o Gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ar ddydd Mercher, Hydref 10fed, 2007 fel cofnod cywir a'i hargymell i'r Cyngor Llawn i'w derbyn.
Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn fod y Cyngor yn derbyn argymhelliad Cofnod 172/Hydref/ 07. Eiliwyd hyn gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

Cof 177/ Hydref / 07 Doedd yna ddim Materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol

Cof 178/ Hydref/ 07 I Ystyried Ôl Geisiadau Cynllunio sydd i'w Penderfynu

E/17127 Cynlluniau diwygiedig ar gyfer estyniad un llawr ym mlaen a chefn ac estyniad ochr un llawr yn 11, Heol Caerfyrddin

Sylw : Gwrthwynebiad gan nad yw'r estyniad yn cydfynd â maint a natur yr eiddo presennol. Dylid gweithredu er mwyn cywiro'r sefyllfa.

E/17453 Newid defnydd y stabl yn llety a newid defnydd adeilad allanol fel llety ar gyfer staff. Adeiladu sawl garej yn Llwynhelig, Penybanc, Llandeilo. ADEILAD RHESTREDIG

Sylw : Dim gwrthwynebiad. Cymeradwywyd bod adeilad hanesyddol yn cael ei adfer.

Dim gwrthwynebiad i waith Coed Cadwraethol gan
1. Gwaith ar goed yn 3, Teras yr Abaty
2. Gwaith ar goed ym Mharc Dinefwr

Cof 179/ Hydref / 07 I Ystyried Gohebiaeth sydd angen eu hateb

1. Dŵr Cymru – Rhybudd o Waith Gwella Hanfodol i'r Dŵr yn y Dref. Penderfynnwyd y dylid cymryd y cynnig o gael Ymgynghoriad Cyhoeddus gyda Dŵr Cymru. Y dyddiad yr awgrymir yw dydd Sadwrn, Rhagfyr 1af rhwng 10am- 1pm yn Neuadd y Sir.
2. Awdurdod Heddlu Dyfed Powys – ymgynghoriad ar y Cynllun Plismona 2008- 2011. Cytunwyd y dylai ymateb y Cyngor gynnwys y tair flaenoriaeth ganlynol
   i) Yfed alcohol o dan oed mewn mannau cyhoeddus
   ii) Troseddau'n ymwneud ag alcohol.
   iii) Troseddau'n ymwneud â cheir/parcio anghyfreithlon
3. Mr Mike Rees – parthed y gwelyau blodau. Penderfynnwyd y dylid cyfeirio'r llythyr at y Clwb Garddio.
4. Mr & Mrs Pugh - parthed llwybr troed. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Hugh Towns y dylid gofyn i'r Swyddog Technegol gysylltu â Mr a Mrs Pugh.
5. Ymgynghoriad ar Bolisi Trwyddedu CSC.
   Cynigiodd y Cyng Hugh Towns astudio'r ddogfen a chynnig sylwadau ar ran y Cyngor.

Cof 180 / Hydref/ 07 Gohebiaeth er gwybodaeth

1 Miss T. Swindells – parthed Parc Penlan. Nodwyd
2. Mr Brian Day – parthed Parc Penlan. Nodwyd.
3. Mr David Rice – parthed Parc Penlan. Nodwyd.
4. CSC – parthed Fforwm 50+. Nodwyd.
5. Cylchgrawn Un Llais Cymru. Nodwyd.
6. Tân ac Achub – Dangosyddion Perfformiad. Nodwyd.
7. LlCC – Copiau o Cyfrifoldeb a Rennir. I'w drafod yng nghyfarfod mis Tachwedd.
8. CSC – penderfynu ar draciau amaethyddol. Nodwyd.
9. Cyfarfodydd Heddlu Dyfed Powys. Nodwyd.
10. Rhybudd gan CAVS bod eu CBC i'w gynnal yn y Gerddi Botaneg ar 15.11.07. Nodwyd.

Cof 181/ Hydref/ 07 Materion Ariannol.

1. Anfonebau i'w Talu

Charles Sams (Trydan)	£ 119.32
Y Swyddog Technegol (cerdyn ffôn symudol)	£ 10.00
Carmarthen & Pumsaint Farmers Cyf (siacedi amddiffynnol)	£ 169.20
Ysiwirant Zurich Municipal	£ 3,322.77
'Festive Lighting' (Goleuadau Nadolig)	£ 4,335.75
'Festive Lighting' (Goleuadau Nadolig)	£ 282.00

Penderfynnwyd talu'r rhain, cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.
Dywedodd y Swyddog Cyllid bod 'Zurich Insurance' wedi derbyn y ffurflen gais ar gyfer yswiriant pellach sydd ei angen ar gyfer yr arddangosfa Tân Gwyllt.
Cytunwyd i drafod gwneud arolwg o'r yswiriant ar gyfer Neuadd y Sir yn y cyfarfod Cyllid nesaf.

2. Materion Ariannol Eraill – Balansau'r Cyfrifon

Cyfrif Cyfredol LTC (24.10.07)	£ 8,872.81

3. Cyfrifon Banc y Cyngor.
Gofynnwyd i'r Swyddog Cyllid wneud arolwg o'r mathau o gyfrifon sydd ar gael i'r Cyngor. O ganlyniad, argymhellodd Mr Plummer y dylid trosglwyddo £50,000 i'r bond cynilo Llog Uchel Busnes am dri mis. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn y dylid derbyn yr argymhelliad hwn. Eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.
4. Archeb Sefydlog i WCVA.
Gofynodd y Swyddog Cyllid am y mis presennol i gynyddu'r archeb sefydlog gyda WCVA i £800 o £ 587.73 er mwyn ystyried yr hyn sy'n ddyledus i'r tri swyddog. Cynigiodd y Cyng Hugh Towns y dylid gwneud hyn ac eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.
5. Apêl Pabi Coch y Lleng Prydeinig Brenhinol.
Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn y dylid rhoi rhodd o £50 in lieu o'r apêl eleni i gynnwys cyflwyno'r dorch. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid. Cyhoeddwyd y trefniadau ar gyfer y parêd ar Dachwedd 11eg.

Cof 182/ Hydref/ /07 Rheoliadau Ariannol ac Archebion Sefydlog

Mae'r Is-grwp Gweithdrefnau wedi adolygu'r Rheoliadau Ariannol a'r Archebion Sefydlog a chyflwynodd y Cyng Hugh Towns fersiynau drafft i'r Cyngor eu trafod. Mae Adran Rheoliadau Ariannol 6.6 i'w newid.

Adran 9.3 – Canllawiau ar gyfer rhoddion. Ar gyfer Band C, cynigiodd y Cyng Hugh Towns 'hyd at £300, neu fwy mewn amgylchiadau eithriadol. Eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

Archebion Sefydlog. Y Cynnig i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn yw bod yr Archebion Sefydlog drafft hyn yn dod yn lle'r Archebion Sefydlog presennol.

Cynigiodd y Cyng Ros Bellamy y dylid Gohirio Rheol Sefydlog Rhif 6B er mwyn i'r Cyngor fedru cwblhau ei fusnes.

Cof 183/ Hydref / 07 Y Dathliadau Canmlwyddiant ym Mharc Penlan

Adroddodd y Dirprwy Faer Cyng Edward Thomas ei fod yn bwriadu cynnal cyfarfod cyhoeddus gyda phartion a mudiadau sydd â diddordeb mewn perthynas â'r parc ar ddydd Mawrth, Tachwedd 6ed yn Neuadd y Sir am 7pm.

Cof 184/ Hydref / 07 Adroddiad y Maer

Cyflwynodd y Maer Cyng Richard Wallace adroddiad o'r digwyddiadau a fynychwyd ganddo ar ran y Cyngor.

Cof 185/ Hydref / 07 Adroddiad yr Is-grŵp Tân Gwyllt.

Adroddodd y Maer ar gyfarfod yr is-grŵp. Mae'r trefniadau mewn llaw. Mae'r yswiriant wedi'i drefnu. Mae trefniadau i'w gwneud ar gyfer y defnydd o seff nos er mwyn bancio'r arian yn syth wedi'r digwyddiad.

Dosbarthwyd y rhaglenni i Gynghorwyr a fydd yn eu dosbarthu hwy i'r hysbysebwyr a Thrigolion y Dref.

Cof 186/ Hydref/ 07 Adroddiad yr Is-grŵp Goleuadau Nadolig

Agorwyd y tendrau ar gyfer gwaith trydan 2007 cyn y cyfarfod gan y Maer a hefyd y Swyddog Technegol. Maent fel a ganlyn :

1. Gosod manau Pwer
   - Davies Electrical £ 1680 + taw
   - Charles Sams £ 2401 + taw
2. Gosod a chysylltu'r goleuadau
   - Davies Electrical £ 1510 + taw
   - Charles Sams £ 1795 + taw

Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns y dylid derbyn y tendrau isaf ac y dylai cwmni annibynnol brofi'r bracedi. Eiliwyd hyn gan y Cyng Ieuan Gwyn.

Roedd pawb o blaid. Ni ddylid dychwelyd y ffurflen a anfonwyd gan CSC gan nad yw'r Cyngor yn derbyn bod angen i CSC brofi'r bracedi gan nad yw'r rheoliadau goleuadau Nadolig yn berthnasol. Roedd y gwaith profi annibynnol wedi ei wneud er mwyn bodloni'r Cyngor fod y gwaith wedi'i wneud yn iawn. Rhoddwyd caniatâd i'r Swyddog Technegol fynd at yr ail gontractwr pe bai'r contractwr a enwebwyd yn methu â chwblhau'r gwaith ar amser.

Cof 187/ Hydref/ 07 Adroddiad y Swyddog Technegol.

Dywedodd y Swyddog Technegol fod y contractwr Lorne Stewart heb gyflwyno adroddiad o'r hyn sydd angen ei wneud i system gwres canolog Neuadd y Sir. Rhoddwyd caniatâd i Mr Davies gael cyllideb o tua £250 i brynu uned gymysgu newydd.

Cof 188/ Hydref/ 07 Doedd amser ddim yn caniatau rhagor o fusnes

Daeth y cyfarfod i ben am 10.00pm